WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir y Fflint**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1743A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cwblhawyd y gwaith gan dîm a oedd yn cynnwys Jeremy Evans, Matthew Edwards a Mike Whiteley o dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn dilyn trywydd risg uchel o ran ei strategaeth ariannol ac nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau; nid yw'r defnydd a wneir o'r herwydd o'r cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn gynaliadwy


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir a dealladwy ond uchel ei risg; nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau i fantoli'r gyllideb 7

Ac yntau wedi defnyddio nifer o addasiadau cyfrifyddu technegol a ffynonellau refeniw eraill i helpu i fantoli'r gyllideb yn y gorffennol, mae'n fwy tebygol y bydd angen i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso gorwariant yn y dyfodol, ac nid yw hyn yn gynaliadwy 9

Mae record y Cyngor o ran cyflawni arbedion a gynlluniwyd yn gwella; ond bydd yn anoddach pennu a chyflawni arbedion yn y dyfodol 10

Mae balansau'r cronfeydd wrth gefn yn lleihau 11

Cyfraddau casglu'r dreth gyngor yw'r gorau yng Nghymru o hyd 12

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau sy'n canolbwyntio ar fasnach ac mae'r benthyca cyffredinol yn parhau i fod yn isel 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth wnaethom ni ei adolygu a pham?

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr i ganolig.

2 Roedd yn rhoi sylw i strategaeth ariannol pob cyngor, ac yn adolygu ‘dangosyddion’ ariannol sefyllfa ariannol pob cyngor o ran:

- Y perfformiad o’i gymharu â’r gyllideb
- Y camau i gyflawni cynlluniau arbed
- Y defnydd o’r cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: ynghylch Cyngor Sir y Fflint

Mae’r arddangosyn hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor), nifer y staff a gyflogir ganddo, a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd gan y Cyngor gyllideb refeniw net o £271m yn 2019-20**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 6,000 o bobl**




**Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor asedau sefydlog gwerth £752m**

Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint

3 Cynhaliwyd yr asesiad oherwydd inni bennu bod cynaliadwyedd ariannol yn risg a allai atal cynghorau rhag rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Yn rhannol, roedd hyn yn seiliedig ar brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am sefyllfa ariannol cynghorau Cymru, a’r duedd gyffredinol sy’n dangos bod adnoddau llywodraeth leol yn lleihau a’r galw am rai gwasanaethau’n cynyddu.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart gylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau cyllido yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint

4 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2019.

## Beth wnaethom ni ei ganfod?

5 Yn gyffredinol, bu inni ganfod yr hyn a ganlyn: Mae'r Cyngor yn dilyn trywydd risg uchel o ran ei strategaeth ariannol ac nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau; nid yw'r defnydd a wneir o'r herwydd o'r cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn gynaliadwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir a dealladwy ond uchel ei risg; nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau i fantoli'r gyllideb;
- ac yntau wedi defnyddio nifer o addasiadau cyfrifyddu technegol a ffynonellau refeniw eraill i helpu i fantoli'r gyllideb yn y gorffennol, mae'n fwy

tebygol y bydd angen i’r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso gorwariant yn y dyfodol, ac nid yw hyn yn gynaliadwy;

- mae record y Cyngor o ran cyflawni arbedion a gynlluniwyd yn gwella, ond bydd yn anoddach pennu a chyflawni arbedion yn y dyfodol;
- mae balansau’r cronfeydd wrth gefn yn lleihau;
- cyfraddau casglu’r dreth gyngor yw’r gorau yng Nghymru o hyd;
- nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau sy'n canolbwyntio ar fasnach ac mae’r benthyca cyffredinol yn parhau i fod yn isel.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn dilyn trywydd risg uchel o ran ei strategaeth ariannol ac nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau; nid yw'r defnydd a wneir o'r herwydd o'r cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn gynaliadwy

### Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir a dealladwy ond uchel ei risg; nid yw'n barod i beryglu ystod, ansawdd na diogelwch ei wasanaethau i fantoli'r gyllideb

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig?

6 Mae'n bwysig cael strategaeth ariannol glir a chadarn i bennu lefel debygol yr arian a fydd ar gael i'r cyngor, ynghyd â maint disgwyliedig y galw am wasanaethau, a chost eu darparu. O ystyried y pwysau ariannol diweddar a disgwyliedig ar bob cyngor, mae hefyd yn bwysig pennu sut y mae'r cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hwnnw, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau cyllido rhagamcanol.

#### Beth wnaethom ni ei ganfod?

7 Mae'r Cyngor wedi rhoi opsiynau ar waith i wella ei gydnerthedd ariannol ac i fynd i'r afael â'r bwlch sylweddol yn ei gyllideb, ac mae'n dal i bwyso a mesur opsiynau o'r fath, gan ganolbwyntio'n bennaf ar drosolwg manwl ar gyfer 2020-21 gyda rhagolygon lefel uwch ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn defnyddio dull cynllunio ariannol cadarn ac mae ganddo strategaeth ariannol glir dros y tymor canolig, ond mae dibynnu ar lobïo Llywodraeth Cymru i gael setliad ariannol gwell i bennu cyllideb gytbwys yn dechneg uchel ei risg. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:


- cyn y setliad diwygiedig, roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020-21 yn nodi'n glir fwlch o £13.3 miliwn yn y gyllideb. Mae'r rhagolwg cyfun ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ychydig o dan £15 miliwn;
- mae'r Cyngor yn asesu cydnerthedd gwasanaethau i wrthsefyll gostyngiadau pellach i'w cyllidebau, gan roi sgôr risg sy'n helpu i osod sail ar gyfer y broses o bennu cyllideb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn mynnu ei fod i raddau helaeth wedi dihysbyddu'r opsiynau i gwtogi cyllidebau a pharhau i ddarparu gwasanaethau ar lefel sy'n dderbyniol i gymunedau, yn ddiogel, ac yn cydymffurfio â gofynion statudol;
- mae'r Cyngor hefyd yn rhagweld y bydd y bwlch rhagamcanol yn y gyllideb yn cynyddu gan fod rhai gwasanaethau, fel Gwasanaethau Plant a chludiant

i'r ysgol, yn wynebu pwysau mawr o ran costau, heb fod modd iddynt fodloni'r galw ychwanegol o'r cyllidebau a bennwyd. Mae'r Cyngor wedi cynyddu darpariaeth y gyllideb yng nghyllideb ddrafft 2020-21;

- mae'r Cyngor wedi lleihau cyllidebau ei wasanaethau o leiaf 30% dros y tair blynedd diwethaf (ac eithrio'r Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a'r gyllideb Gofal Cymdeithasol a Gomisiynir). Drwy amddiffyn rhai gwasanaethau, rhaid i eraill ysgwyddo cyfran uwch o'r gostyngiadau i'r gyllideb, hyd at 45% mewn rhai achosion;
- mae'r Cyngor wedi trawsnewid gwasanaethau'n sylweddol i wella cynhyrchiant mewn sawl maes drwy gyflwyno modelau cyflenwi gwasanaethau newydd (hamdden, llyfrgelloedd a chyfleusterau) ac mae wedi cynhyrchu peth incwm ychwanegol;
- yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, mae'r Cyngor yn nodi'n glir fod risg sylweddol na fydd modd iddo gyflawni ei rwymedigaethau statudol i bennu cyllideb gytbwys yn 2020-21 heb arian ychwanegol. Cafodd y risg hon ei gwrthbwyso ar gyfer y cylch cyllidebu hwn drwy'r cynnydd yng ngwerth y setliad a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019. Oni bai fod y setliad yn parhau i fod yn fwy ffafriol, mae perygl o hyd na fydd y Cyngor yn ariannol gynaliadwy mewn blynyddoedd i ddod.

## Arddangosyn 3: y bwlch cyllido rhagamcanol

Mae'r graff a ganlyn yn dangos y bwlch cyllido y mae'r Cyngor wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn hon a'r tair blynedd nesaf.




Ffynhonnell: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Sir y Fflint

## Ac yntau wedi defnyddio nifer o addasiadau cyfrifyddu technegol a ffynonellau refeniw eraill i helpu i fantoli'r gyllideb yn y gorffennol, mae'n fwy tebygol y bydd angen i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso gorwariant yn y dyfodol, ac nid yw hyn yn gynaliadwy

### Pam ei bod yn bwysig rhagamcanu gwariant yn gywir?

8 Mae'n bwysig cadw gorwariant a thanwariant o dan reolaeth a sicrhau bod y gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Os nad yw cyngor yn gallu rhagamcanu a chynllunio ei wariant yn gywir, mae risg y bydd yn creu pwysau ariannol annisgwyl a allai beryglu ei allu i bennu cyllideb gytbwys. Gall patrymau tanwariant sylweddol leihau gallu cyngor i wireddu ei brif amcanion neu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Beth wnaethom ni ei ganfod?

9 Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi defnyddio addasiadau cyfrifyddu technegol i'w helpu i gynhyrchu gwargedion cyllidebol bach. Serch hynny, oherwydd gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn sgil cynnydd yn y galw a phwysau'r farchnad, mae'n debygol o ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn, gan wanhau ei gydnerthedd ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- yn 2017-18, roedd gan y Cyngor warged o tua £2.1 miliwn, a gellir priodoli £1.422 miliwn o'r swm hwnnw i enillion yn sgil addasiadau cyfrifyddu. Fodd bynnag, cafwyd gorwariant mewn meysydd pwysig fel cludiant i'r ysgol a lleoliadau tu allan i'r sir;
- dywedodd y Cyngor fod ganddo warged o £600,000 yn 2018-19 oherwydd tanwariant yn y rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth a chorfforaethol. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, parhaodd y Cyngor i wynebu pwysau costau oherwydd gorwariant ar gludiant i'r ysgol a lleoliadau tu allan i'r sir i blant sy'n derbyn gofal;
- o ran 2019-20, mae'r Cyngor yn rhagamcanu gorwariant cyffredinol posibl o £3 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae'n gorwario yn yr un meysydd sy'n seiliedig ar alw â'r blynyddoedd blaenorol, sef cludiant i'r ysgol a lleoliadau tu allan i'r sir;
- bydd gorwariant rhagamcanol 2019-20 yn effeithio'n sylweddol ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, gan leihau'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £1.886 miliwn (uwchlaw'r lefel sylfaenol o £5.769 miliwn).

### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant o’i gymharu â chyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae’r arddangosyn a ganlyn yn dangos swm y gorwariant neu’r tanwariant yng nghyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor dros y ddwy flynedd diwethaf a’r sefyllfa alldro ragamcanol ar ddiwedd y flwyddyn fel yr oedd ar 30 Tachwedd 2019.

| | Y gyllideb refeniw net wreiddiol | Alldro gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ tanwariant cyffredinol | Canran y gwahaniaeth o’i gymharu â’r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £255.1m | £253.0m | Gwarged o £2.1m | Tanwariant o 0.8% |
| 2018-19 | £264.3m | £263.7m | Gwarged o £0.6m | Tanwariant o 0.2% |
| 2019-20 | £271.4m | £273.5m | Gorwariant o £1.9m | Gorwariant o 0.7% |

Ffynhonnell: Adroddiadau monitro cyllideb refeniw Cyngor Sir y Fflint

## Mae record y Cyngor o ran cyflawni arbedion a gynlluniwyd yn gwella; ond bydd yn anoddach pennu a chyflawni arbedion yn y dyfodol

### Pam fod y gallu i bennu ac i gyflawni cynlluniau arbed yn bwysig?

10 Mae’r gallu i bennu meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac yna mynd ati i gyflawni’r arbedion hynny, yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus mewn cyd-destun lle ceir pwysau ariannol cynyddol. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni, gall arwain at orwariant sy’n galw am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac yn cynyddu maint yr arbedion y bydd angen eu gwneud mewn blynyddoedd i ddod i wneud iawn amdano. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni a bod gofyn i feysydd gwasanaeth wneud arbedion na chawsant eu cynllunio, ceir mwy o risg na fydd arbedion yn gydnaws â blaenoriaethau’r Cyngor neu y bydd datrysiadau ‘tymor byr’ yn cael eu canfod nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Beth wnaethom ni ei ganfod?

11 Canfuwyd bod record y Cyngor o ran cyflawni’r arbedion penodol a bennwyd ganddo yn gwella. Fodd bynnag, os bydd angen iddo barhau i leihau ei gyllidebau, bydd yn mynd yn anoddach iddo bennu a chyflawni’r arbedion hyn. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- yn 2015-16, dywedodd y Cyngor iddo gyflawni 83% o’r arbedion a gynlluniwyd. Dros y blynyddoedd canlynol, mae’r Cyngor wedi gwella'r

sefyllfa, gan gyflawni 98% o'r arbedion a gynlluniwyd yn 2018-19, ac mae'n disgwyl cyflawni 95% o'r arbedion a gynlluniwyd yn 2019-20. Mae'r targedau perfformiad a bennir gan y Cyngor yn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu'r gwelliant hwn;

- yn yr un modd â chynghorau eraill, mae'n mynd yn anoddach pennu a chyflawni arbedion.

Arddangosyn 5: yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion a gynlluniwyd

Mae'r arddangosyn a ganlyn yn dangos faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed drwy arbedion a gynlluniwyd yn 2018-19 a faint o'r arian hwnnw a arbedwyd ganddo.

| **£5.5m** | **£5.4m** | **£0.1m** | **98%** |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyfanswm yr arbedion a gynlluniwyd | Yr arbedion a gynlluniwyd a gyflawnwyd | Yr arbedion a gynlluniwyd nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Alldro adroddiad monitro cyllideb refeniw 2018-19 Cyngor Sir y Fflint

## Mae balansau'r cronfeydd wrth gefn yn lleihau

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn mewn ffordd gynaliadwy?

12 Mae cael lefelau iach o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â'u defnyddio i ariannu pwysau cyllido annisgwyl, gall cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fod yn ffynhonnell gyllido bwysig i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sy'n ceisio lleihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Bydd cynghorau sy'n defnyddio eu cronfeydd wrth gefn heb gynllunio i wneud hynny er mwyn cau bylchau yn eu cyllidebau refeniw yn lleihau eu cronfeydd wrth gefn ac yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau annisgwyl ar y gyllideb yn y dyfodol.

### Beth wnaethom ni ei ganfod?

13 Canfuwyd nad yw'r Cyngor wedi defnyddio ei gronfeydd wrth gefn heb gynllunio i wneud hynny er mwyn ariannu pwysau ar y gyllideb refeniw yn y gorffennol, ond mae'n debygol y bydd gorwariant yn ystod y flwyddyn yn peri iddo ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn yn 2019-2020. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Protocol Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn adolygu sefyllfa ei gronfeydd wrth gefn. Mae'r

Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael gwybodaeth bob chwarter drwy adroddiadau monitro'r gyllideb;

- dros y tair blynedd diwethaf, cynlluniwyd i ddefnyddio £6.5 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i helpu i bennu cyllideb gytbwys. Cynlluniwyd i ddefnyddio £2.2 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllideb 2019-20, ac mae'n debygol y bydd hefyd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i ariannu gorwariant yn ystod y flwyddyn;
- oni bai iddi gael ei lliniaru gan ffynonellau incwm eraill, bydd sefyllfa ragamcanol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau'r gronfa wrth gefn gyffredinol i £1.886 miliwn (uwchlaw'r lefel sylfaenol o £5.769 miliwn). O ddefnyddio'r gronfa wrth gefn yn y ffordd hon, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd 'yn cyfyngu'n sylweddol ar gydnerthedd y Cyngor yn wyneb risgiau i wasanaethau' a'i gynaliadwyedd cyffredinol;
- ar ôl cael setliad diwygiedig gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r Cyngor yn bwriadu defnyddio ei gronfeydd wrth gefn mwyach yng nghyllideb ddrafft 2020-21.


### Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£264m**

Y gyllideb refeniw net



**£19m**

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio



**7%**

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel canran o'r gyllideb refeniw net

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir y Fflint

## Cyfraddau casglu'r dreth gyngor yw'r gorau yng Nghymru o hyd

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig?

14 O fethu â chasglu'r dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor, bydd ganddo lai o incwm. Gall hyn, yn ei dro, gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a pheri iddi fod yn ofynnol iddo wneud mwy o arbedion. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell gyllido fwyaf cynghorau Cymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig.

### Beth wnaethom ni ei ganfod?

15 Canfuwyd bod record y Cyngor o ran casglu'r dreth gyngor yn dda, ac mai'r Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae incwm treth gyngor Sir y Fflint wedi cynyddu o 23% o'r gyllideb yn 2010-11 i 31% yn 2019-20 (Ardrethi Annomestig, y Grant Cynnal Refeniw, a'r Dreth Gyngor). Gwelir symudiad gweddol debyg mewn cynghorau eraill yng Nghymru oddi wrth y Grant Cynnal Refeniw at y dreth gyngor;
- o ran 2018-19, cynhaliodd y Cyngor gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn o 98.2% o ran y dreth gyngor. Hon yw'r gyfradd gasglu orau yn ystod y flwyddyn yng Nghymru.

### Arddangosyn 7: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos canran y dreth gyngor ddyledus a gasglwyd yn ystod 2018-19



Ar 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor wedi casglu £83.7m (98.2%) o arian parod y dreth gyngor o'i gymharu â dyled gasgladwy o £85.2m

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru – cyfraddau casglu'r dreth gyngor yng Nghymru 2018-19.

## Nid oes gan y Cyngor unrhyw brosiectau sy'n canolbwyntio ar fasnach yn unig, ac mae'r benthyca cyffredinol yn parhau i fod yn isel

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau cynaliadwy o fenthyca?

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell gyllido werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf mawr fel ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall y gost o ad-dalu unrhyw fenthyciad, gan gynnwys costau llog, effeithio ar y cyllidebau refeniw parhaus yn y tymor hir. Mae perygl y bydd cynghorau sy'n methu â chydbwyso'n briodol fanteision a chostau benthyca â'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol yn lleihau swm yr arian a fydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Gall benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol gynhyrchu incwm

ychwanegol i ariannu gwasanaethau cyngor, ond gall fod risgiau sylweddol ynghlwm wrth unrhyw weithgarwch masnachol hefyd.

### Beth wnaethom ni ei ganfod?

17 Canfuwyd bod incwm masnachol a benthyca cysylltiedig y Cyngor yn gyfyngedig. Mae ei fenthyciadau eraill yn fforddiadwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019-20 ym mis Chwefror 2019. Roedd yn amlinellu ei ymrwymiad i sicrhau bod ei strategaeth benthyca'n rhoi sylw i fater pwysig fforddiadwyedd, heb beryglu sefydlogrwydd ei bortffolio dyledion yn y tymor hwy;
- cynhyrchodd y Cyngor incwm o £2.3 miliwn yn 2018-19 o'r unedau diwydiannol masnachol sydd ganddo ers tro a'i ystadau amaethyddol;
- nid yw'r Cyngor yn benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, ond mae wedi defnyddio ei bwerau benthyca i helpu i gyflawni ei amcanion strategol i'w alluogi i ddyfarnu benthyciadau i NEW Homes (is-gwmni tai'r Cyngor a sefydlwyd i adeiladu tai).

### Arddangosyn 8: benthyciadau'r Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, ynghyd â chost holl fenthyciadau'r Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.

**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol

**4.4%**

Cost yr holl fenthyciadau fel cyfran o gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cynaliadwyedd Ariannol a datganiad o gyfrifon 2018-19 Cyngor Sir y Fflint

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru